

Tasg 1

## Gwirfoddoli

Atebwch y cwestiynau yma:

1. Pam mae Morgan wedi ysgrifennu'r e-bost?

2. Beth mae Morgan wedi bod yn ei wneud ers dwy flynedd?

3. Beth mae e'n meddwl am y profiad?

4. Beth yw agwedd Morgan tuag at wirfoddoli?

Rhowch resymau dros eich ateb.

5. Pa fath o berson yw Morgan yn eich barn chi?

Rhowch reswm dros eich ateb.

6. Mae'r ansoddeiriau hyn yn y testun. Beth yw'r enwau?

<b>ansoddair</b>	<b>enw</b>
diflas	diflastod
hyderus	
gwir	
diddorol	
dall	
anabl	

7. Dewiswch naill ai **Tasg A** neu **Tasg B** isod.

**Tasg A**

Ble rydych chi'n gwirfoddoli?

Beth yw'ch barn chi am y profiad?

Sut mae gwirfoddoli'n eich helpu chi nawr?

Sut all gwirfoddoli eich helpu chi yn y dyfodol?

Gwnewch nodiadau ac yna trafodwch y cwestiynau hyn mewn grŵp.

**Tasg B**

Petaech chi'n gwirfoddoli, beth hoffech chi ei wneud?

Sut fyddai hyn yn eich helpu chi nawr?

Sut fyddai hyn yn eich helpu chi yn y dyfodol?

Beth yw eich barn chi am wirfoddoli?

Gwnewch nodiadau ac yna trafodwch y cwestiynau hyn mewn grŵp.